

## Cofnodion cyfarfod Rhagfyr 10<sup>fed</sup> 2020

**Preseanol (trwy gyfrwng Teams):** Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Sharon Evans, Tony Parry, Alun Price, Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Las Puw (Clerc).

1. Wrth groesawi bawb cyfeiriodd y Maer at y cydweithio braf yn y dref yn cynnal y gymuned yn ystod cyfnod y Covid. Anfonodd cofion at Gynghorwyr sydd yn cynnal aelodau'r teulu yn eu gwaeledd ar hyn o bryd. Diolchodd am y fraint o gyd-weithio gyda thri phrif ddisgybl Ysgol Godre'r Berwyn a feirniadodd ar y Noson Siopa Hwyr. Enillydd y Ffenest Orau oedd Siop Ria sy'n cyfrannu'r wobwr o £50 at "Ymateb Cymuned Penllyn", grŵp gwirfoddol sy'n estyn cymorth i'r llai breintiedig. Yn y gystadleuaeth Addurniadau Allanol, yr enillydd oedd Hynafolion Hefin gyda Siop Kel yn ail. Fe fydd arian y wobwr hon yn cael ei gyfrannu i Ambiwylans Awyr. Llongyfarchwyd Hynafolion Hefin ar ymddangos ar yr Antiques Roadshow. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Carol Rowlands a John Caradog Williams,
2. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiadau o fuddiant gan Rhys Evans 10iv.a (materion ariannol) ac Alun Price 9i (cais cynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru ).
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd Cofnodion cyfarfod 5/11/20.

#### 4. Materion y Clerc:

- i. Sedd Wag - cyhoeddwyd y derbyniodd Elin Haf y gwahoddiad i eistedd ar y Cyngor.
- ii. Cyfyngiad 40mya yn Llanycil - darllenwyd ymatebion gan ddau o'r pum aelod o Senedd Cymru, sef Dafydd Elis Thomas a Neil Hamilton, a diolchwyd iddynt am ohebu ar ran y Cyngor. Darllenwyd hefyd ymateb y Gweinidog Ken Skates a oedd yn dweud nad oedd bwriad i osod cyfyngiad cyflymder yn yr ardal ar hyn o bryd. Awgrymodd holi am gamera Gan Bwyll, er yr eglurwyd iddo fod 60mya yn gyfreithiol ond yn annerbyniol yma; ar ben hyn, ni all Gan Bwyll weithredu oherwydd y troeon yn y ffordd.

Cafwyd ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth am ddamweiniau yn yr ardal a chytunwyd fod yr wybodaeth hon yn cadarnhau mor beryglus ydyw'r ardal yng nghyffiniau Eglwys Llanycil. Cytunwyd i anfon eto at Aelodau Senedd Cymru ac at Ken Skates, gan gynnwys data Heddlu Gogledd Cymru. Cytunwyd i anfon at gynghorau cymuned Llanycil a Llanuwchllyn i ofyn am eu cefnogaeth hwythau.

Heol Ffrydan – Mae Cyngor Tref Y Bala eisoes wedi gofyn i Gyngor Gwynedd am gyfyngiad 20mya yma er lles diogelwch disgyblion Ysgol Godre'r Berwyn a phreswylwyr, yn arbennig trigolion Awel y Coleg. Dywedodd y Maer fod Llywodraethwyr Ysgol Godre'r Berwyn hefyd yn parhau i bwysu am 20mya yn yr ardal hon ac mae posibilrwydd y gosodir arwyddion a fydd yn cynghori terfyniad 20mya.

Cytunwyd i holi am ystadegau Gan Bwyll ar Heol Ffrydan (A4212) am 2019, gan ofyn beth oedd canran y troseddwy'r efo cod post LL23 neu bobl sy'n teithio trwy'r Bala sydd mwyaf euog o oryrru.

- iii. Ymholiad pellach am fin baw ci – cyfeiriwyd yr achwynydd eto at Gyngor Gwynedd.
  - iv. Triathlon Y Bala Medi 4 a 5, 2021 – cymeradwywyd y cais i gynnal hwn gan y bydd yn cael ei gynnal ym Medi a bydd y ffordd ar gau ar fore dydd Sul yn unig.
5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd. Bu llawer iawn o waith yn ymwneud efo Covid oherwydd y cynnydd yn yr achosion yn ddiweddar. Derbyniodd gwynion am amllder ymweliadau wardeiniaid traffig, ac am faw cŵn. Llongyfarchodd y busnesau am gyd-dynnu a chyd weithio, a chyfeiriodd at y bwrlwm cymunedol yn y dref.  
Cytunwyd i ddiolch i holl staff yr ysgol am eu hymdrechion caled a’u gofal dros y plant yn y dyddiau anodd hyn; mae’r ysgol wedi parhau ar agor i bob disgybl ar hyd y tymor.
6. **Cyfleusterau Cyhoeddus ac ardoll parcio:** mae’r Cynghorydd Dilwyn Morgan wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd yng nglyn â’r ardoll. Cytunwyd i gyfarfod ar lein gyda Steffan Jones.
7. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Tony Parry a amlinellodd yr hyn sydd yn y cais cynllunio i gryfhau’r arglawdd wrth y llyn. Cyfeiriodd yn arbennig at y cynlluniau ar gyfer plannu coed.
8. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiad yr Is-bwyllgor Nadolig, a dywedwyd iddynt osod goleuadau ar hyd y dref. Diolchwyd am gymorth Peter Roberts o Gyngor Gwynedd. Mae coed Nadolig bychain wedi eu gosod ar y ffyrdd mewn i’r dref.
9. **Materion Cynllunio:**
- i. **NP5/53/580** Prosiect Diogelwch Cronfa Ddŵr Llyn Tegid - i gynnwys: atgyfnerthu wynebau cefn arglawdd y llyn gogleddol a’r Afon Dyfrdwy; uwchraddio'r amddiffynfa arfog garreg i wyneb blaen arglawdd y llyn; adlinio'r arglawdd yn ardal ‘safle’r seindorf’; ad-drefnu a thirweddu maes parcio gorlif y blaendraeth a man eistedd allanol Canolfan Hamdden Penllyn; a chynyddu hyfywedd o lwybrau cysylltiol ar hyd arglawdd gogleddol y llyn, glan chwith yr Afon Dyfrdwy a glan dde Afon Tryweryn - CYMERADWYWYD
  - ii. **NP5/53/363D** Adeiladu garej, Bryn Myfanwy, Stryd y Fron, Y Bala. LL23 7YD  
CYMERADWYWYD

#### 10. Materion Cyllid:

- i. Derbyniwyd yr ymateb i’r Adroddiad Ariannol 2019-20 (BDO); nid oedd mater yn codi.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am yr arian a ellid ei wario o dan Adran 137.
- iii. Trafodwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chytunwyd i beidio â thalu am y toiledau, gan ddisgwyl am ganlyniad y cyfarfod gyda Steffan Jones. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i’r mater yn dilyn y cyfarfod hwnnw.
- iv. Ystyriwyd anfonebau a chymeradwywyd talu:
  - i. Addurniadau’r Nadolig

- a. £150.95 (trwy garedigrwydd Rhys Evans); mae anfoneb arall i ddod a rhoddwyd hawl i'w thalu.
- b. Siop Kel - disgwylir anfoneb a rhoddwyd hawl i'w thalu.
- ii. Awen Meirion: Baneri Cymreig:£132.30 (cytunwyd i gais y Grŵp Busnes am gyfraniad yn haf 2020)
- iii. Gwefan y Cyngor: £150
- iv. ico (Debyd Uniongyrchol) £35
- v. Cyflog (mis Tachwedd)
- vi. Cyfraniad at gynnal y Swyddfa 2020: £300

**11. Gohebiaeth:**

- i. Amcanion Gwella a Llesiant Parc Cenedlaethol Eryri – cafwyd trafodaeth a chytunwyd i anfon sylwadau at y Clerc i'w coladu a'u hanfon ymlaen.
- ii. Cyfoeth Naturiol Cymru: Nodwyd yr ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â chynllun adnoddau coedwig Llanfor a Chelyn.
- iii. Llywodraeth Cymru: Derbyniwyd holiadur “Dweud eich dweud am lwybrau cerdded a beicio” a chytunodd unigolion i ymateb.
- iv. Llywodraeth Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am gyfle i uwchraddio parciau chwarae a chytunodd Tony Parry i'w throsglwyddo i swyddogion Maes Chwarae Heol y Castell.  
Ychwanegodd Sue Davies wybodaeth am grant Comisiynydd yr Heddlu a chytunwyd i'w gosod ar y wefan a'i rhannu efo'r cyngorau eraill

**12. Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad Alun Price a ddywedodd fod y cyfnodau cloi wedi amharu ar waith y Bartneriaeth.

**13. Asedau'r Cyngor:** Ciosg y Stryd Fawr – Mae'r ciosg bellach yn eiddo i Gyngor Tref Y Bala. Derbyniwyd gwybodaeth am bris gosod di-ffib yn y ciosg. Cytunwyd i ofyn am gyfraniadau gan fudiadau yn y dref i brynu di-ffib. Trafodwyd gofyn am gyfraniad o dan y trefniant Marathon gan y byddai'r di-ffib yn cael ei ddefnyddio'n ehangach na thrigolion Y Bala'n unig. Cytunodd y Clerc i chwilio am nawdd. Cytunwyd i ofyn i'r Ymatebwyr Cyntaf ofalu amdano yn gyfnewid am gyfraniad blynyddol gan y Cyngor. Bydd y mater yn cael ei ystyried gan yr is-bwyllgor cyllid wrth osod y gyllideb.

**14. Materion lleol y Cyngorwyr Tref:** Adroddwyd y bu ffrwgd ar y Stryd Fawr un penwythnos ac arweiniodd hyn at gonsyrn ei fod wedi cymryd awr i'r Heddlu gyrraedd. Wrth werthfawrogi fod yr Heddlu o dan bwysau yn y dyddiau Covid hyn, cytunwyd i anfon at y Prif Gwnstabl i fynegi pryder am yr amser a gymerodd i'r Heddlu gyrraedd.

**15. Dyddiad a lleoliad** y cyfarfod nesaf: 7/1/21 am 7.00 pm (trwy gyfrwng Teams)